CYFARFOD

Grŵp Cynghori ar Faterion Moesol a Moesegol COVID-19: Cymru Dydd Iau: 10 Rhagfyr 2020

Cofnodion cyfarfod Grŵp Cynghori ar Faterion Moesol a Moesegol COVID-19 Cymru a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2020.

Cyhoeddwyd gyntaf: 10 Rhagfyr 2020

Diweddarwyd ddiwethaf: 10 Rhagfyr 2020

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://www.llyw.cymru/grwp-cynghori-ar-faterion-moesol-moesegol-covid-19-cymru-dydd-iau-10-rhagfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Cynnwys

Yn bresennol

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://www.llyw.cymru/grwp-cynghori-ar-faterion-moesol-moesegol-covid-19-cymru-dydd-iau-10-rhagfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Cam gweithredu

Cam gweithredu	Cyfrifol
1. Mae angen trafodaethau gyda byrddau iechyd i benderfynu pa drefniadau monitro sydd ar waith a sut y gallant sicrhau bod y broses o wneud penderfyniadau yn gyson ac yn dryloyw ar lefel glinigol. I'w drafod gyda chyfarwyddwyr clinigol a nyrsio.	HP
2. Mae angen trafodaethau gydag Arolygiaeth Iechyd Cymru i benderfynu a ydynt yn cynllunio unrhyw beth tebyg i'r CQC.	HP
3. Y Pwyllgor Cenedlaethol - Manylion aelodau o sefydliadau cynrychioliadol i'w rhannu â'r grŵp.	All
4. Gwneud penderfyniadau fframwaith. Syniadau i'w rhannu ynghylch sut y gallwn ychwanegu tryloywder, credydu a diogelu'r rhai sy'n gwneud y penderfyniadau hyn?	All
5. Ystyried Ap i sicrhau bod y fframwaith moesegol ar gael yn rhwydd.	HP
6. Angen sgwrs gydag AaGIC i sicrhau bod hyfforddiant ar gael i hyrwyddo dealltwriaeth o anabledd.	HP
7. Aled R i rannu ei brofiad personol gyda'r ganolfan brofi tracio ac olrhain.	Aled Roberts
8. Pryderon ynghylch grwpiau gwrth-frechlyn, a heriau cyfathrebu i'w trafod gyda chydweithwyr sy'n ymwneud â'r brechlyn.	WG

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://www.llyw.cymru/grwp-cynghori-ar-faterion-moesol-moesegol-covid-19-cymru-dydd-iau-10-rhagfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Yn bresennol

Heather Payne (Cadeirydd)), Aled Roberts, Alison Mawhinney, , Kevin Francis, Alison Parken, Rhian Davies, Viv Harpwood, Carol Wardman, Kathy Riddick, Valerie Billingham, Liz Davies, Aled Edwards, Ben Thomas

Nodyn o’r Cyfarfod

Rhif	Pwnc
1.	**Croeso, Ymddiheuriadau a Chyflwyniadau** Gwnaeth y Cadeirydd gyflwyniadau a nododd ymddiheuriadau.
3.	**Canllawiau Ymchwydd Eithafol** Penderfynwyd ar yr achos gwaethaf cyfrifol ar gyfer Covid ar ddechrau'r pandemig. Roedd hyn yn cynnwys ysbytai eos a pheiriannau anadlu ychwanegol. Mae cynlluniau wrth gefn ar waith a dyma yw ffynhonnell y canllawiau ymchwydd eithafol. Gofynnwyd i'r grŵp ystyried y canllawiau drafft. Sylwadau • Dolen â dogfen moeseg ac egwyddorion CMEAG, ond byddem yn croesawu amlinelliad o elfennau penodol ystyriaethau cyfreithiol a moesegol, gan na fydd pobl o bosibl yn agor y ddogfen. • Gall y tabl cryno mewn dogfen RCP debyg fod yn ddefnyddiol wrth grynhoi'r egwyddorion moesegol.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/grwp-cynghori-ar-faterion-moesol-moesegol-covid-19-cymru-dydd-iau-10-rhagfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Rhif Pwnc

- Gallai cyfeiriadau at ofal bugeiliol fod yn ddefnyddiol. Mae angen iddo fod yn gynhwysol i gwmpasu materion ffydd a materion nad ydynt yn ymwneud â ffydd. Mae yna risg i staff niwed moesol o dan yr amgylchiadau hyn. Gwirfoddolwyr cymorth bugeiliol anghrefyddol, wedi'u cynnwys fel rhan o dimau caplaniaeth.
.
- Byddai'n dda cyfeirio at ddarpariaeth gofal ysbrydol yn sicrhau cymunedau bod sensitifrwydd wedi'i ystyried a bod strwythurau eisoes ar waith i roi sicrwydd i gymunedau ac i leddfu ofnau.
.
- O safbwynt cyfreithiol hawliau dynol, er mwyn bodloni Erthygl 2 ac Erthygl 14 (yr hawl i fywyd a'r hawl i ddiffyg gwahaniaethu), byddai angen i'r Wladwriaeth allu dangos bod gwaith blaenoriaethu wedi'i wneud mewn ffordd resymegol a heb wahaniaethu. Rhaid i gorff gwneud penderfyniadau gofal iechyd fod â phrotocol moesegol cytûn, tryloyw, nad yw'n gwahaniaethu, ar waith ar gyfer pennu blaenoriaethau mewn sefyllfaoedd lle mae diffyg capasiti.

- Mae'r ddogfen hon wedi'i hysgrifennu o safbwynt canllawiau i staff. Byddai'n dda cael dogfen sydd wedi'i hysgrifennu o safbwynt cleifion/dinasyddion. Gallai hyn wedyn nodi lle gallai'r niwed posibl godi.

- Gweithio trawsffiniol rhwng y GIG a gofal cymdeithasol a'r cyhoedd yn gyffredinol. I weithio, mae angen cynllunio wrth gefn yn y meysydd hynny a gall pob sector weithredu'n gydlynol.

- Rhaid i gyfathrebu gynyddu ac mae angen i bobl fod yn rhan o'r newid.

- Cynllunio wrth gefn mewn sectorau gofal cymdeithasol, gwirfoddol a sectorau eraill, er mwyn galluogi gweithio trawsffiniol cydlynol.

- Harneisio rhwydweithiau sy'n bodoli eisoes. Mae'r Byrddau Iechyd a Chydffederasiwn y GIG yn cyhoeddi diweddariadau rheolaidd i gymunedau ac mae gan grwpiau crefyddol fecanweithiau ar waith y gellir eu defnyddio'n gyflym. CLILC a CGGC fyddai'r fforymau ar gyfer y trydydd sector.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://www.llyw.cymru/grwp-cynghori-ar-faterion-moesol-moesegol-covid-19-cymru-dydd-iau-10-rhagfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Rhif	Pwnc

- Ychwanegu cyfeiriad at MEAG a chroesgyfeirio'r ymholiadau hawliau dynol o fewn canllawiau pennu blaenoriaeth foesegol Sefydliad Iechyd y Byd

- Efallai y byddai'n ddefnyddiol pwysleisio'r canlynol ymlaen llaw::
  - Mae'r ddyletswydd gofal i'r holl gleifion sydd mewn ambiwlansys ar hyn o bryd neu sy'n aros mewn ambiwlansys i ddod i mewn
  - Rhaid i'r penderfyniadau fod yn seiliedig ar yr unigolyn a'r holl wybodaeth y gellir ei chael am y person ond nid ar nodweddion 'categori'
  - Mae 'hawl i fywyd' Erthygl 2 yn gyfartal ar draws pawb

- Mae polisi DNACPR Cymru yn ymdrin yn benodol â Marwolaeth Naturiol, Ddisgwyliedig a Dderbynnir (NAAD) a all fod o gymorth pan fydd pobl yn marw gartref ac mae gan Hospice UK a Chomisiwn Bevan ganllawiau gofal i berthnasau sy'n gofalu am rywun gartref

- A oes hawl i apelio ac a yw'r ddogfen yn helpu gweithwyr iechyd proffesiynol i ddeall eu hawliau? Mae gan y system IPFR ddogfen penderfyniadau moesegol ar gyfer clinigwyr a a staff cymorth

Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu sylwadau a dywedodd y byddent yn cael eu cynnwys mewn dogfen a'u dychwelyd i'r tîm perthnasol..

5. **Brechlynnau a moeseg**

Cyflwynodd Carol Wardman a Viv Harpwood pam mae pobl yn gyndyn i dderbyn brechlynnau. Mae'r rhain yn cynnwys elfennau ymarferol, moesegol a thrafodol yn ogystal â dryswch. Mae ymddiried mewn ffynonellau, gweithwyr meddygol proffesiynol a gwybodaeth ar-lein yn bwysig iawn. Yn aml, mae pobl yn teimlo nad yw eu cwestiynau'n cael eu cymryd o ddifrif.

O safbwynt Cristnogol, nid yw meddygaeth yn anghristnogol. Wrth geisio asesu gwybodaeth mae angen ystyried y ffynonellau ac a ydynt yn dod o fan cadarnhaol - "Nid beth y gallwch ei wneud, beth y dylech chi ei wneud".

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://www.llyw.cymru/grwp-cynghori-ar-faterion-moesol-moesegol-covid-19-cymru-dydd-iau-10-rhagfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Rhif	Pwnc

Cytunir y byddai'n anodd iawn gwneud y brechlyn yn orfodol. Gan edrych mewn mannau eraill yn y byd, mae deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno yn Nenmarc yn ceisio annog pobl i gymryd brechlynnau. Mae Ffrainc a'r Almaen yn edrych ar frechiadau gorfodol i blant fel yn achos imiwneiddio yn ystod plentyndod. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod gwladwriaethau rhyddfrydol wedi gwneud yn llawer gwaeth na gwledydd llymach gyda brechlynnau.

Yn ddelfrydol, rydym am i bawb gytuno i gael brechlynnau. Ar hyn o bryd mae 30% yn amheus o'r brechlyn. Mae'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith yn darparu dyletswydd i sicrhau bod lleoedd cyflogaeth yn ddiogel ac asesiadau risg. Mae cynseiliau ar gyfer brechlynnau gorfodol, megis brechlynnau hepatitis, er mwyn gweithio yn y GIG.

O gofio bod y brechlyn yn cael ei gyflwyno, rydym yn pryderu am y diffyg gwybodaeth swyddogol sy'n cael ei dosbarthu, gan gynnwys mewn fformatau amgen a fydd yn galluogi pobl i wneud penderfyniad gwybodus.

Mae eithriad ar gyfer grwpiau ffydd yn bodoli os gellir profi cysylltiad rhwng credoau crefyddol mewn gwrthwynebiad i'r brechlyn.

Mae angen i'r neges fod yn glir mai ymyriad iechyd arferol, ac nid gweithdrefn feddygol fawr yw hyn. Mae'n faes lle ceir dau begwn barn gan y bydd rhai yn awyddus i'w gael tra bydd eraill yn gwrthod yn llwyr.

Val a Carol i gydweithio i ddwyn ynghyd enghreifftiau a darparu papur cyngor.

8. **Unrhyw fater arall**

Dim

Cyfarfod nesaf: Ionawr 2021

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://www.llyw.cymru/grwp-cynghori-ar-faterion-moesol-moesegol-covid-19-cymru-dydd-iau-10-rhagfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://www.llyw.cymru/grwp-cynghori-ar-faterion-moesol-moesegol-covid-19-cymru-dydd-iau-10-rhagfyr-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.